



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CAERDYDD  
CF99 1SN

30 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 26) 2021**

Rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn heddiw o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rwy'n bwriadu gosod y rhain a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Atodir copiâu o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

Daw'r Rheoliadau i rym ar ddechrau'r diwrnod ar 31 Rhagfyr 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl eu gosod. Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd.

Cyn iddynt gael eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, roedd rheoliadau 6 a 7 o'r prif Reoliadau yn darparu ei bod yn ofynnol i bersonau sy'n profi'n positif am y coronafeirws hunanyngysu am gyfnod o 10 diwrnod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i ddarparu bellach ei bod yn ofynnol i bersonau sy'n profi'n positif am y coronafeirws hunanyngysu am gyfnod o 7 diwrnod (yn hytrach na chyfnod o 10 diwrnod). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan fo person yn dod o fewn y categori hwn ond ei fod o dan ofyniad i ynysu yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 31 Rhagfyr 2021 oherwydd iddo gael hysbysiad i hunanyngysu ar ôl canlyniad positif i brawf COVID-19, fod y cyfnod hunanyngysu yn dod i ben yn unol â rheoliad 6 neu 7 o'r prif Reoliadau fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae angen y diwygiadau er mwyn ymateb i'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno gan grŵp Cyngor, Canllawiau ac Arbenigedd Iechyd y Cyhoedd (PHAGE) Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) i'r pedwar Prif Swyddog Meddygol am hyd y cyfnod hunanynysu ar gyfer achosion o COVID-19 a'r potensial i leihau'r cyfnod hwnnw drwy gynnal profion mynych gan ddefnyddio Dyfeisiau Llif Ochrol. Mae hefyd yn cydnabod y cynnydd cyflym yn nifer yr achosion a'r problemau staffio sy'n cael eu teimlo ar draws gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Ar sail y modelu, mae lleihau'r cyfnod ynysu i 7 diwrnod, ochr yn ochr â'r cyngor i ddefnyddio Profion Llif Ochrol, yn golygu y bydd cyn lleied â phosibl o gynnydd yn y risg y gallai unigolion heintus gael eu rhyddhau o fod yn hunanynysu, gan gydbwysu hynny â'r manteision cymdeithasol a ddaw yn sgil lleihau'r cyfnod hunanynysu, ynghyd â'r potensial i'r polisi hwn gynyddu'r parodrwydd i gydymffurfio â chanllawiau hunanynysu.

Mae peidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael cais i hunanynysu yn unol â'r cyngor ar iechyd y cyhoedd ac am gyfnod nad yw'n hirach na'r hyn sydd ei angen. Bydd hynny'n helpu i liniaru effeithiau absenoldebau estynedig staff ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru; ac yn cysoni'n sefyllfa ni yng Nghymru â'r sefyllfa a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn lleihau unrhyw drafferthion neu ddryswch ar y ffin.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**